# Cryfhau gwydnwch ffermydd yng Nghymru

**Y mater**

Mae ffermwyr yn wynebu heriau digynsail. Mae ansefydlogrwydd byd-eang cynyddol wedi dangos pa mor fregus yw ein system fwyd, yn enwedig i ffermydd sy'n dibynnu ar wrteithiau a phorthiant anifeiliaid wedi'u mewnforio. Mae tywydd mwyfwy difrifol yn gwaethygu hyn, trwy ddifrodi cnydau a gwres sy'n achosi gofid i dda byw.

Mae gan fferm wirioneddol wydn briddoedd iach sy'n dal dŵr yn ystod cyfnodau sych ac yn draenio'n well mewn glaw trwm, mae'n tyfu amrywiaeth ehangach o gnydau i leihau risg methiant llwyr cnydau, ac nid yw'n dibynnu ar fewnbynnau drud sy'n deillio o danwydd ffosil sy'n agored i ysgytwadau i brisiau a tharfu ar y cyflenwad.

Deëllir yn gynyddol bod dull 'amaeth-ecolegol', sydd wedi'i seilio ar iechyd pridd i adfer systemau llif maethynnau ac ynni cylchol, yn helpu ffermwyr i ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd ac ansefydlogrwydd geowleidyddol. Bydd systemau fferm sy'n gweithio gyda byd natur, yn hytrach nag yn ei erbyn, hefyd yn adfer y fioamrywiaeth, y pridd iach, a'r dŵr glân y mae ffermio ei hun yn dibynnu arnynt yn y pen draw.

**Pam mae'n bwysig i Gymru**

Mae ffermio'n agored iawn i'r newid yn yr hinsawdd, yn enwedig mewn ardaloedd ucheldirol lle mae priddoedd tenau'n cynyddu effeithiau tywydd eithafol. Disgwylir i hafau Cymru fynd yn sychach o lawer – fe allai glawiad leihau hyd at 15% erbyn 2050 a 26% erbyn 2080 – gan fygwth pori a chynhyrchu cnydau. Mae gaeafau gwlypach yn cynyddu perygl llifogydd a diraddio pridd, ac amcangyfrifir y bydd difrod strwythurol yn lleihau'r capasiti i storio dŵr 10–20%[1]. Mae amodau cynhesach, gwlypach hefyd yn ffafrio plâu a phathogenau newydd, gan beryglu diogeledd bwyd ymhellach[2].

Mae'r pwysau hyn yn rhyngweithio â bregusrwydd sydd eisoes yn bodoli. Mae bron dwy ran o dair o Gymru wedi'i gorchuddio â glaswelltir, ac mae llawer ohono wedi'i drosi o borfeydd cyfoethog eu rhywogaethau yn laswelltir wedi'i wella'n amaethyddol, nad yw'n cynnwys llawer o amrywiaeth, sy'n aml yn cynnal mwy o stoc na'i gapasiti i adnewyddu'n llwyr. Mae hyn yn gadael priddoedd yn agored, wedi'u cywasgu, ac yn tueddu i erydu a storio llai o ddŵr a maethynnau, ac mae'n creu mwy o ddibyniaeth ar fewnbynnau sy'n diraddio iechyd pridd a chynhyrchedd hirdymor ymhellach.

**Cyd-fynd â chyd-destun polisi Cymru**

Mae dull ffermio amaeth-ecolegol yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni sawl un o Ddangosyddion Cenedlaethol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gyfrannu at Gymru Gydnerth, gan gynnwys iechyd pridd (13), allyriadau nwyon tŷ gwydr (41), ecosystemau iach (42), amrywiaeth fiolegol (44), ansawdd dŵr (45) ac arloesedd busnesau fferm (11).

Mae sawl un o'r targedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn ymwneud â lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd – gan gynnwys tir amaeth sy'n destun llifogydd neu sychder hirfaith a rheoli pridd yn gynaliadwy – gyda dangosyddion cysylltiedig ar gyfer gwydnwch busnesau amaethyddol[3].

Mae Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026[4] yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn rhoi blaenoriaeth i egwyddorion ac amddiffyniadau amgylcheddol wrth lunio pob polisi.


**Tystiolaeth/cyfeiriadau**

1. Crynodeb ar gyfer Cymru (CCRA3-IA) – Risg Hinsawdd y Deyrnas Unedig
2. Crynodeb ar gyfer Cymru (CCRA3-IA) – Risg Hinsawdd y Deyrnas Unedig
3. Datganiad Dangosyddion a Thargedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy
4. Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026



**Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol**

Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/who-we-are/soil-association-wales

**Ein safbwynt**

Mae gwydnwch cenedlaethol yn dibynnu ar gynnal y sylfaen ehangaf posibl o ffermydd yn ffermio'n gynaliadwy: mae cyfuno a dwysáu sy'n lleihau nifer y ffermydd a'r amrywiaeth o fathau o ffermydd, neu sy'n disodli rheolaeth gadarnhaol o ran natur yn tanseilio gallu cyfunol Cymru i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae gwydnwch ffermydd yn gofyn am weithredu i ailffurfio strwythur a bioleg pridd gan ddefnyddio arferion amaeth-ecolegol (sy'n ymdrin â chnydio, compostio, ac ymgorffori ffrwythlondeb naturiol gan ddefnyddio codlysiau) a chynnwys mwy o goed i sefydlogi priddoedd, storio carbon, dal dŵr, darparu cynefin a chynnal cynhyrchedd da byw trwy ddarparu cysgod a lloches. Dylid defnyddio llai o wrteithiau synthetig oherwydd bod y rhain yn gallu diraddio iechyd pridd a dinistrio deunydd organig a microbau pridd buddiol. Dylai'r cyngor a roddir i ffermydd gael ei seilio ar ddull fferm gyfan i amlygu ble y gall allbynnau o un rhan o'r fferm ddod yn fewnbynnau mewn rhan arall.[5]

Mae gwydnwch hefyd yn dibynnu ar weithredu y tu hwnt i giât y fferm: byrhau ac amrywiaethu cadwyni cyflenwi, datblygu seilwaith bwyd lleol a rhanbarthol, sicrhau prisiau tecach a chontractau tymor hwy i ffermwyr, cryfhau caffael bwyd o Gymru a gynhyrchwyd yn amaeth-ecolegol gan y sector cyhoeddus, a thyfu'r farchnad ar gyfer bwyd a ffermio organig.

**Sut rydym yn mynd i'r afael â hyn**

- Cynrychiolodd ein Pennaeth Polisi Cymru, sef Andrew Tuddenham, Gyswllt Amgylchedd Cymru ar Banel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon Bord Gron Gweinidogol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (2024-25) ac mae'n parhau i fod yn aelod o Grŵp Rhanddeiliaid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gweithgorau eraill y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Mae ein cynghorwyr ffermio yn rhoi cyngor a hyfforddiant i helpu ffermwyr yng Nghymru i fabwysiadu arferion sy'n gyfeillgar i natur.
- Mae Cyfnewidfa Cymdeithas y Pridd yn gweithio gyda mwy na 140 o ffermwyr yng Nghymru i fesur effaith amgylcheddol a chymdeithasol eu harferion ffermio, gan wella gwydnwch. Mae 78% o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn gwneud mwy o elw.
- Fe wnaethom arwain partneriaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i amlygu camau gweithredu cadarnhaol ynglŷn â lles da byw ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy[6] - mae safonau lles uchel yn cyfrannu at wydnwch ffermydd.

## Yr hyn rydym eisiau i lunwyr polisïau yng Nghymru ei wneud

- **Cyflwyno targed a strategaeth cyfreithiol rwymol ar gyfer iechyd pridd**
- **Gosod targed ar gyfer lleihau nitrogen wedi'i seilio ar danwydd ffosil ac ymrwymo i 10% o dir organig erbyn 2030 trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chynllun Gweithredu Organig**
- **Cynyddu graddfa cyngor a chynllunio fferm gyfan trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chyswllt Ffermio**
- **Cyflawni ymrwymiad y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren i ymchwilio i gadwyni cyflenwi lleol**
- **Cefnogi ymchwil ac arloesedd amaeth-ecolegol fel dulliau allweddol o wella gwydnwch ffermydd**

**Tystiolaeth/cyfeiriadau**

5 Cynllunio ar gyfer Newid: rôl cynlluniau fferm gyfan yn y newid amaethyddol (adroddiad)
6 Her "Bywyd Da" i anifeiliaid fferm – Cyswllt Busnes Innovate UK

Sicrwydd yn erbyn Sychder: Ffermio'n Ecolegol ar gyfer Gwydnwch Hinsawdd (adroddiad)

**Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol**

Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/who-we-are/soil-association-wales